## Ai dyn drwg oedd Jwdas Iscariot?

Jwdas Iscariot oedd y gŵr a fradychodd Iesu Grist â chusan, ac mae rhai ysgolheigion a'u bryd ar ail-edrych ar y modd y cafodd y disgybl hwnnw ei drin dros y canrifoedd. Y bwriad yw adfer ei le i'r gŵr y talwyd iddo 30 darn arian am ddatgelu i filwyr Rhufain pwy oedd Iesu Grist yng Ngardd Gethsemane, a hynny ar y rhagdybiaeth nad oedd yn fwriadol ddrwg gan mai dim ond gwneud ei ran yr oedd yng nghynllun Duw.

Yn draddodiadol, mae Cristnogion wedi beio Jwdas fab Simon Iscariot (gweler Ioan 6:71 ac 13:26) am yr hyn a wnaeth yn cynorthwyo a hyrwyddo'r weithred o groeshoelio Iesu Grist. Mae ei enw'n gyfystyr â bradwriaeth. Yn ôl Efengyl Luc, 'aeth Satan i mewn i Jwdas' (Luc 22:3).

Bellach mae bwriad i gymell credinwyr i ailystyried ac i edrych yn fwy caredig ar y gŵr hwn a gafodd ei feirniadu a'i waradwyddo am 2,000 o flynyddoedd. Dywedwyd ei bod bellach yn bryd i ailystyried ac ailddarllen stori Jwdas, ac y byddai adfer ei le i Jwdas yn ateb un broblem go fawr: pam na ddangosodd Iesu Grist fwy o drugaredd tuag at un o'i ddisgyblion agosaf?

Mae hen draddodiad Cristnogol sy'n dweud bod Iesu Grist wedi maddau i Jwdas am yr hyn a wnaeth ac wedi ei annog i fynd i'r anialwch i ddilyn 'ymarferiadau ysbrydol' i'w buro'i hun. Bu'n anffasiynol iawn ers tro mewn cylchoedd ysgolheigaidd i wneud 'diafol' o Jwdas. Os bu Iesu Grist farw dros bawb, gofynnodd un, a yw hi'n bosibl fod Jwdas hefyd wedi cael ei waredu drwy'r Gwaredwr a fradychwyd ganddo?

Gwelwyd yr ymdrech i adfer ei le i Jwdas fel cymorth i'r Pab Bened XVI yn ei fwriad i geisio gwella'r berthynas rhwng Cristnogion ac Iddewon – nod a osododd fel blaenoriaeth iddo'i hun ar ôl dod yn Bab.

Dywed rhai ysgolheigion Beiblaidd fod Jwdas wedi mynd yn 'ysglyfaeth i enllib diwinyddol sydd wedi arwain at greu teimladau gwrth-Semitaidd' drwy greu ohono ddihiryn anfad a oedd yn barod i fradychu er mwyn arian.

Mewn darluniau a dramâu o'r Oesoedd Canol, caiff Jwdas ei bortreadu gyda thrwyn crwm a nodweddion Semitaidd wedi cael eu gorwneud. Yn *Inferno* Dante, er enghraifft, caiff Jwdas ei anfon i byllau dyfnaf Uffern lle caiff ei draflyncu gan ddiafol a chanddo dri phen ac adenydd fel ystlumod.

Mae'r bwriad i glirio enw Jwdas yn cyd-fynd â'r cynlluniau i gyhoeddi'r hyn a elwir 'Efengyl Jwdas' am y tro cyntaf yn Saesneg, Almaeneg a Ffrangeg. Er nad yw'n debygol mai Jwdas ei hun a'i hysgrifennodd, y mae'n adlewyrchu'r hyn yr oedd y Cristnogion cynnar yn ei gredu. Mae mwy a mwy wedi dod i gredu bod Jwdas, wrth fradychu ei Arglwydd, yn cyflawni cenhadaeth a oedd o ddwyfol osodiad: cenhadaeth a arweiniodd maes o law at groeshoelio Iesu Grist ac at iachawdwriaeth dynoliaeth. Pe na byddai Jwdas wedi ymddwyn fel y gwnaeth, fyddai'r ddeubeth hynny ddim wedi bod yn bosibl.

Dywedodd un ysgolhaig nad oedd yn disgwyl unrhyw dystiolaeth hanesyddol newydd o ddarllen Efengyl Jwdas – Efengyl na chafodd ei chynnwys ymhlith llyfrau'r Testament Newydd. Serch hynny, gallai fod o gymorth i ddeall yr hyn a ddigwyddodd ac a ddysgodd Iesu Grist o edrych drwy lygaid y Cristnogion cynnar. Mae'n ffaith fod Iesu Grist yn gyson wedi pregethu pa mor bwysig yw maddau i elynion.

Nid pawb ymysg ysgolheigion Beiblaidd heddiw sy'n hapus ynghylch y symudiadau hyn i ail-edrych ar weithredoedd Jwdas Iscariot. Dywedodd un ei bod yn beryglus i ailystyried lle Jwdas fel hyn, a bod perygl i hynny faeddu tystiolaeth y Testament Newydd drwy ymhél ag ysgrifau na farnwyd eu bod yn deilwng na llesol i'w cynnwys ynddo. All hynny ddim ond peri dryswch i gredinwyr.

Dywed yr efengylau fel y bu i Jwdas ddychwelyd y 30 darn arian a roddwyd iddo – yr arian gwaed – a mynd a'i grogi ei hunan, neu fel y dywed Llyfr yr Actau, 'fe brynodd faes â'r tâl am ei ddrygwaith, ac wedi syrthio ar ei wyneb ... tywalltwyd ei berfedd i gyd allan' (Actau 1:18).

Yn ôl rhai adroddiadau, awgrymir mai dyn wedi cael ei siomi oedd Jwdas am nad oedd Iesu Grist y chwyldroadwr a ddisgwylid: y chwyldroadwr a fyddai'n arwain gwrthryfel yn erbyn Rhufain a sefydlu Teyrnas Dduw ar y ddaear.

Mae adroddiadau'r efengylau'n tystio bod Iesu Grist wedi datguddio i'w ddisgyblion adeg y Swper Olaf y byddai un ohonynt yn ei fradychu, er nad yw'n dweud pan un. Dywed: 'Gwae'r dyn hwnnw y bradychir Mab y Dyn ganddo! Da fuasai i'r dyn hwnnw petai heb ei eni' (Mathew 26:24).

Eto, yn ôl Mathew, mae Iesu Grist yn cydnabod bod gan Jwdas waith dwyfol i'w gyflawni, ac mae'n dweud wrth Jwdas pan ddaliwyd ef gan yr awdurdodau, 'Gyfaill, gwna'r hyn yr wyt yma i'w wneud' (Mathew 26:50). Mae hefyd yn ychwanegu bod yn rhaid cyflawni 'yr Ysgrythurau sy'n dweud mai fel hyn y mae'n rhaid iddi ddigwydd' (Mathew 26:54).

Cafodd Efengyl Jwdas, memrwn 62 tudalen a oedd wedi treulio a malu, ei darganfod yn yr Aifft hanner canrif yn ôl, a'i gwerthu'n ddiweddarach gan bobl oedd yn delio â henebion i Sefydliad Maecenas yn Basle, y Swistir. Mae'r gwaith yn dyddio cyn y flwyddyn 180, gan mai Irenaeus yw'r cyntaf i gyfeirio ato.

***Ioan W. Gruffydd***